# Fersiwn y dysgwyr

Deunyddiau darllen sampl

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## *Cwblhau Brawddegau*

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

**1** Mae Deio'n gweld y dref ar y ______ .

cap ☐ map ☐ mam ☐ mae ☐ tap ☐

1 — 1m

**2** Rwy'n mynd i nofio bob nos ______ .

Awst ☐ dydd ☐ Mai ☐ Iau ☐ ddoe ☐

2 — 1m

**3** Roedd y beic yn costio can ______ !

pen ☐ punt ☐ pwys ☐ paent ☐ pwrs ☐

3 — 1m

**4** ______ o beli sydd yn y bocs?

Pa ☐ Pwy ☐ Faint ☐ Ble ☐ Pryd ☐


4 — 1m

*trosodd*


***Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd* mewn bocs *ar dudalennau 4–6.***
***Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.***

**Bwyd i'r adar**

Weithiau, yn y gaeaf, does dim digon o fwyd i'r adar gwyllt. Rydyn ni'n gallu helpu'r adar drwy roi bwyd allan yn yr ardd. Dyma ddau aderyn sy'n hoffi dod i'r ardd i gael bwyd.



*Robin goch*



*Titw Tomos las*

Dyma beth sydd ei angen i wneud tŵr bwydo adar: poteli plastig neu boteli llaeth plastig, cortyn, hadau, siswrn, darn o bren.

Mae'n rhaid i oedolyn eich helpu gyda'r gwaith torri!



**1a** Pryd mae'r adar yn dod i'r ardd i gael bwyd?

Ticiwch **un**.

- yn y gwanwyn ☐
- yn yr haf ☐
- yn yr hydref ☐
- yn y gaeaf ☐

1a
1m

**1b** Beth sydd ei angen i wneud y tŵr bwydo adar?

Ticiwch **2**.

cerdyn ☐ glud ☐

siswrn ☐ cortyn ☐

papur ☐

1b
1m

**2** **Dewiswch** a **chopïwch un** gair sy'n dangos ble mae'r adar yn dod i gael bwyd.

_______________________________________________

2
1m

**3** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Does dim angen help oedolyn i wneud y tŵr adar. | | ✓ |
| Gallwch chi ddefnyddio poteli plastig i wneud y tŵr. | | |
| Bydd tŵr adar yn helpu'r adar yn yr haf. | | |
| Dydy'r robin goch ddim yn dod i'r ardd. | | |

3
1m

*trosodd*

1. Torrwch un twll bob ochr yn y botel blastig. Rhowch ddarn o bren drwy'r ddau dwll. Bydd yr adar yn gallu eistedd ar y darn o bren.



2. Torrwch tua deg twll bach arall yn y botel. Bydd yr adar yn gallu tynnu'r hadau allan drwy'r tyllau.



3. Llenwch y botel â'r hadau. Rhowch y cortyn o gwmpas ceg y botel cyn ei hongian mewn coeden.

4. Pan fydd y botel yn torri, bydd hi'n amser gwneud tŵr arall, gan ddefnyddio potel newydd.



**4** Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Pan fydd y botel yn torri, defnyddiwch botel newydd i wneud tŵr arall. | ☐ |
| Torrwch tua deg twll bach yn y botel. | ☐ |
| Rhowch ddarn o bren drwy'r botel. | 1 |
| Hongiwch y botel mewn coeden yn yr ardd. | ☐ |
| Llenwch y botel â hadau. | ☐ |

4
1m

**5** Tynnwch **3** llinell i ddangos beth yw pwrpas pob eitem.

| | |
|---|---|
| siswrn | hongian y botel |
| potel | torri twll yn y botel |
| cortyn | dal yr hadau |

5
1m

**6** Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

a) Ar ôl darllen y darn hwn rydych chi'n gwybod sut i wneud

**tŷ** ☐ **bath** ☐ **tŵr** ☐ **nyth** ☐

i'r adar.

b) Bydd y botel yn llawn

**cnau**. ☐ **hadau**. ☐ **bara**. ☐ **dŵr**. ☐

6
1m

**Diwedd y deunyddiau sampl.**

© Hawlfraint y Goron 2013